# Egnioli ein

## Porthladdoedd a'n Cadwyn Gyflenwi



Mae tri rhwystr strategol yn atal Cymru rhag sicrhau dyfodol ynni glân: ein rhwydwaith grid, y system gynllunio a chydsynio, a pharodrwydd porthladdoedd a'r gadwyn gyflenwi. Mae gan bob un ei heriau unigryw ond maen nhw'n effeithio ar ei gilydd ac mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar y cyd.

Mae ein porthladdoedd yng Nghymru yn byrth byd-eang amlfodd sy'n ddarparwyr pwysig a chynyddol o seilwaith ynni adnewyddadwy. Mae'r ddogfen friffio hon yn tanlinellu'r **angen hanfodol i hyrwyddo eu rôl allweddol wrth hybu twf gwyrdd Cymru.** Mae'n amlygu'r cyfleoedd economaidd sylweddol a gyflwynir gan Borthladdoedd Rhydd Celtaidd ac Ynys Môn ac yn amlinellu strategaethau amrywiol i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â heriau buddsoddi cyfalaf ymlaen llaw, gan gynnwys cymhellion i ddenu cwmnïau angori, datblygu'r gweithlu, a symleiddio prosesau cynllunio. Mae'n cloi gyda chamau gweithredu i lunwyr polisi gefnogi buddsoddiad mewn porthladdoedd a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

Mae sylfaen economi werdd Cymru yn dibynnu ar ein gallu i greu pŵer glân. Ynni adnewyddadwy yw'r prif gyfle ar gyfer twf economaidd eang ledled Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae ein porthladdoedd yn esblygu i fod yn hybiau amlfodd hollbwysig i feithrin y prosiectau hyn drwy gydol eu cylch oes – o gludo a storio cydrannau tyrbinau gwynt arnofiol ar y môr a'r rhain mor uchel â The Shard a llwyfannau maint caeau pêl-droed, i'w gweithrediadau parhaus a gwaith cynnal a chadw. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod y cyfle o ran gwynt ar y tir ar gyfer porthladdoedd a'r gadwyn gyflenwi sy'n bodoli heddiw. Gyda thyrbinau mwy o faint, mwy effeithlon, bydd y sector hwn yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ehangu porthladdoedd ac yn gwella parodrwydd cadwyn gyflenwi Cymru dros y degawd nesaf.

Mae cyfle economaidd aruthrol i Gymru fanteisio ymhellach ar botensial y Porthladd Rhydd Celtaidd a Phorthladd Rhydd Ynys Môn. Gallai'r lleoliadau strategol hyn gynnal cyfleusterau gweithgynhyrchu a chydosod newydd, gan ddarparu ar gyfer sectorau gwynt ar y môr, ynni'r llanw, hydrogen, a dal a storio carbon.

## Y cyfle economaidd

- Mae'r Tasglu Gwynt ar y Môr Arnofiol yn amcangyfrif y gallai **47,000 o swyddi yn y DU** gael eu creu erbyn 2030 drwy fuddsoddi mewn seilwaith porthladdoedd i gefnogi ffermydd gwynt arnofiol.
- Mae gan gadwyn gyflenwi'r DU ar gyfer ynni gwynt ar y môr yn unig y potensial i ddal **£92bn o GYC erbyn 2040.**
- Rhagwelir y bydd cyfle gwynt ar y môr arnofiol yn y Môr Celtaidd yn werth **£1.4bn i gymunedau lleol.**



## Llun o Wynt y Môr

Mae'r sector ynni gwynt eisoes yn rhoi hwb economaidd sylweddol i Gymru. Oddi ar arfordir Gogledd Cymru, fe wnaeth fferm wynt alltraeth sefydlog Gwynt y Môr RWE fuddsoddi £90 miliwn mewn busnesau Cymreig yn ystod y cyfnod adeiladu. Ers iddi ddechrau gweithredu mae wedi parhau i fuddsoddi tua £8 miliwn bob blwyddyn.



## Goresgyn rhwystrau buddsoddi

Rhaid ystyried y buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw sydd ei angen i drawsnewid ein porthladdoedd. Gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r her hon mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, gallant ysgogi mewnfuddsoddiad drwy nodi **bylchau strategol yn y gadwyn gyflenwi a chynnig cymhellion** i ddenu cwmnïau angori i Gymru. Er enghraifft, gallai efelychu dull Llywodraeth yr Alban o ddarparu grantiau i sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat mewn seilwaith hanfodol, megis ffatri geblau newydd ar gyfer y sector ynni gwynt ar y môr, fod yn effeithiol.

At hynny, mae **cyflymu'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net** yn hanfodol i ddatblygu gweithlu lleol medrus. Mae cydweithio â diwydiant, darparwyr hyfforddiant, a sefydliadau addysgol yn hanfodol yma. Bydd strategaeth gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n blaenoriaethu galwedigaethau hollbwysig ac sy'n cynnig cyfleoedd cymhellol i weithlu Cymru drwy ddenu, cadw, ac uwchsgilio yn hollbwysig.

Yn ogystal, **mae mynd i'r afael ag oedi a diffyg adnoddau yn y broses gydsynio a chynllunio** yn hanfodol er mwyn cefnogi datblygiad y gadwyn gyflenwi ac ehangu porthladdoedd Cymru. Mae oedi gyda Gorchmynion Diwygio Harbwr (HRO) yn arwain at ansicrwydd i ddatblygwyr y mae angen iddynt fod yn hyderus y caiff penderfyniadau eu gwneud yn amserol gan alluogi eu buddsoddiadau eu hunain mewn prosiectau. Mae'r symleiddio hwn yn hanfodol os yw Cymru am feithrin amgylchedd buddsoddi deniadol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy.

## Sut y gallwch chi helpu?

1. Dangoswch eich cefnogaeth drwy gymeradwyo grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol gydag arweinydd Gweinidogol o Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys swyddogion y llywodraeth a chynrychiolwyr y diwydiant. Wrth gydweithio â'n gilydd, gallwn ni ddarparu'r sylfaen dystiolaeth gref sydd ei hangen i gydlynu'r gadwyn gyflenwi a datblygu sgiliau.

2. Ysgrifennwch at Ysgrifennydd y Cabinet dros bolisi Cynllunio i leisio eich pryder ynghylch oedi o ran cynllunio a chydsynio, gan gynnwys Gorchmynion HRO, sy'n effeithio ar ddatblygiad ein porthladdoedd yng Nghymru.

3. Anogwch Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni i hyrwyddo rôl porthladdoedd Cymru sy'n cystadlu mewn marchnadoedd byd-eang megis gwynt arnofiol ar y môr.

4. Mynnwch y wybodaeth angenrheidiol i wasanaethu'ch etholwyr ar y mater hwn. Darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin a'n hastudiaethau achos defnyddiol